1.39

# CAN NEWYDD,

YN RHODDI ANES WIRIONEDDOL AM

# LOFRUDDAETH,

A GYFLAWNWYD GAN

*Samuel Wright, Saer-coed (Carpenter),*

SEF

## Lladd ei Wraig (Elizabeth Wright) au dau Blentyn,

*Y rhai oeddent yn ei babandod, yr hena oedd yn bedair mlwyddoed, ar llall yn flwydd a hanner.*

**Yr hwn a ddihenyddiwyd yn Rhyd-ychen (Oxford) Session Awst, 1825, yn 20ain oed.**

*GAN THOMAS HARRIS.*

Ton anhawdd y madael.

---

YNAWR heb frad fy hen gyfeillion,
Bawb yn ufwdd gymru mwynion,
Dewch i wrando hyn o hanes,
Y modd yn wir i gyd a glywes.

2 Hanes aethus ryfedd hynod,
A ddaeth trwy ddilyn atgas bechod,
A rhoddi coel i dad y celwydd,
Y bu gweithred dost annedwydd.

3 Boed 'ni lefain yn ddiflino,
Ar Dduw 'r heddwch un waith etto,
Am ein cadw a'n gwaredu,
Rhag un pechog ei goleddu.

4 Yn Banbury 'n Sir Rhyd-ychen,
Yr oedd yn byw rhyw greulon fulain,
A saer ydoedd ei gelfyddyd,
Nes cyflawni gweithred enbyd.

5 Roedd ganddo wraig a phlant yn weddus,
Dros flynyddau 'n byw 'n gariadus,
Nes rhows e i gwmp'ni i'r merchyd hyny,
Sydd yn dilyn pob drigioni.

6 A Sarah Potts ei henw ydoedd,
Ai tynnodd ef i wradwydd cyhoedd,
Gan ei rwydo garw rediad,
I bob pechod ffiaidd anllad.

7 Anghofio i wraig ai blant fe ddarfu,
Gan dori 'r ammod fu gyd rhyngthi,
Gan rodio 'r ffordd sydd yn dra ffiaidd
Arweinia i wlad y rhingcian dannedd.

8 Hi felly wedi'n ai perswadodd,
I fyned ymaith garw ydoedd,
I rywle arall i artrefu,
Gan adael gwraig a phlant anwyl-gu.

9 Ddydd a nos yr oedd mewn cyffro,
Ai gwen atgas yn ei hudo,
Fel Daleila ffals ei chalon,
Ai geiriau teg yn hudo Samson.

10 Hithau ai ffalsedd ni orphwysodd,
Ond i bob drigioni ai tynodd,
Yr hyn a fuodd yn anhyfryd,
Ac a gostiodd iddo i fywyd.

11 Ac felly y deuddegfed d'wedaf,
A hyny 'n wir o fis gorphenaf,
Fe aeth i feddwi (garw dynged),
Ai fryd ar wneuthir aflan weithred.

12 Ac yn y nos o ddeutu ddeuddeg,
Fe alwodd ar ei wraig un fwyndeg,

W474
X20519724X

Agor iddo wnai mewn mynud,
Gan ddweud a ddaethoch fy annwylyd.

13 Mor gynted ca'dd e'r drws yn agor,
Heb dd'wedyd yno ddim yn rhagor,
Fe glodd y drws mewn drwg feddylfryd.
I gael dwyn ei hanwyl fywyd.

14 Mewn bar haiarn ef a gydiodd,
Ac a hwn i'r llawr ai trawodd,
Ac un oi blant a waeddai orgwely,
Fe anwyl dad na leddwch mammi.

15 Ond ni thiciodd hyn ei galon,
Ond myn'd ymlaen a'r gwaith echryslon,
Ac ai holl nerth ar bar ergydiodd,
Nes ei phen yn wir a holltodd.

16 Ai 'mhenydd yno 'n tywallt allan,
Ai gwaed yn llynoedd yno yn mhob man,
O galon galed giaidd aflan,
Pan laddodd fam ei blant ei hunan.

17 Ei blentyn ienga 'n hwn fe gydiodd,
Ac o'r gwely i lawr fei llusgodd,
Nis dangosodd un drugaredd,
'Run-wedd ai fam fe ga'dd ei ddiwedd.

18 O'r fath dad o galon galed,
Yn dwyn bywyd 'r un diniweid,
Ei ymysgaroedd ef ei hunan,
Ni bu trymach tro yn unman.

19 Ei blentyn henaf oedd yn gweled,
Ef yn gwneuthir y fath weithred,
Mewn dagreu 'n syn a waeddodd allan,
Fy anwyl dad fy nhad fy hunan.

20 Pa beth yw hyn eich bod mor erwyn,
O beth a wnes i yn eich herbyn,
O fy nhad rhowch i mi gusan,
My fydd 'n blentyn da o hyn allan.

21 Ond er cymaint oedd y plentyn,
Am ei fywyd bach yn erfyn,
Efe ai lladdodd ef mewn mynud,
Mae 'nawr yn fyw nhir y bywyd.

22 Yn fuan cymrwyd ef i fynu,
Ac i'r carchar ca'dd ei gyrchu,
Ychidig ddyddiau y bu yno,
Nes daeth yr awr i'w ei gondemnio.

23 Am y gwaith atgasedd hwnw,
Fe i barnwyd ar y pren i farw,
Ai gorff i'w roddi ir meddygon,
Am fyn'd a bywyd tri (mor greulon).

24 Pan at y grog-pren 'r oedd yn myned
I gael ysgaru 'r corff a'r enaid,
Uchel gwaeddai (torf yn edrych)
I'w gym'ryd ef yn rhybudd odwych.

25 A gochel dilyn ffyrdd y rheini—
Y mae Solomon yn enwi,
Sy'n cyflym fyned i wlad angeu,
A phawb sy'n dilyn yr un llwybreu.

26 Dyma rybydd 'nawr yn rhyfedd,
I holl gymru 'n wyr a gwragedd,
I garu i gilydd mewn gwir undeb,
A rhodio llwybreu hardd diweirdeb.

DIWEDD.

Argraffyd gan J. James, Merthyr-Tydfil.